

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Digwyddiadau sy'n Ymwneud â Phlaladdwyr ac Anifeiliaid

**Rhadffôn 0800 321 600**

Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt

# Gall Plaladdwyr fod yn Beryglus i Anifeiliaid





Mae'r daflen hon yn disgrifio'r 'Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt', cynllun pwysig gan y Llywodraeth sy'n edrych ar effeithiau plaladdwyr ar anifeiliaid.



Mae'r Cynllun yn delio â digwyddiadau sy'n codi yn sgil defnyddio a chamddefnyddio plaladdwyr. Dawn i wybod am y rhan fwyaf ohonyn nhw trwy'r cyhoedd.

Mae'r Cynllun yn helpu i ddiogelu anifeiliaid anwes a gwyllt, yn y wlad ac yn y dref.

**Rhadffôn 0800 321 600**

Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt


**Gallwch chi helpu drwy roi gwybod am**

- Bob anifail rydych chi'n credu sydd wedi'i wenwyno gan blaladdwr
- Unrhyw blaladdwr fel gronynnau neu belets sydd wedi'i cholli
- Abwyd â gwenwyn ynddo
- Unrhyw amheuon bod gwenyn wedi'u gwenwyno

**Pa wybodaeth sydd ei hangen**

- Lleoliad y digwyddiad
- Beth sydd wedi'i wenwyno a faint, ac a oes abwyd
- Pam mae amheuon bod gwenwyn wedi'i ddefnyddio
- Eich enw a'ch rhif ffôn yn ystod y dydd

# Sut mae'r Cynllun yn Gweithio



# Manylion y Cynllun

**Rhowch wybod am y digwyddiad** ar radffôn 0800 321 600. Aelodau'r cyhoedd sy'n ein ffonio fel arfer. Ar ôl oriau swyddfa, gadewch neges ar y peiriant ateb. Bydd cynghorydd bywyd gwyllt Llywodraeth Cymru'n cysylltu â chi. Cofiwch adael eich enw a'ch rhif ffôn dydd. Fel arall, cysylltwch â'r heddlu ar 101 a gofynnwch am y Tîm Troseddau Cefn Gwlad neu ar-lein drwy wefan eich heddlu lleol.

Os caiff y digwyddiad ei dderbyn, bydd Cynghorydd Bywyd Gwyllt yn cynnal **ymchwiliad maes**. Bydd yn ymweld â'r safle ac yn casglu cyrff anifeiliaid, samplau o'r plaladdwr a gwybodaeth. Gall ofyn i sefydliadau eraill am help.

Bydd yr Asiantaeth Iechyd Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanigion **yn archwilio'r** corff i weld sut y bu farw. Os bu farw oherwydd clefyd, diffyg bwyd a/neu anaf corfforol, ni ymchwilir iddo ymhellach.

Caiff **dadansoddiad** ei gynnal o'r plaladdwr gan uned arbenigol yn Cwmni Cyfyngedig Gwyddoniaeth FERA i adnabod y plaladdwr a mesur ei effaith.

Caiff y **canlyniadau** eu hystyried gan Lywodraeth Cymru i weld a gafodd y plaladdwr ei ddefnyddio'n briodol, ei gamddefnyddio trwy esgeulustod neu fwriad anghyfreithlon. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'r heddlu i benderfynu a oes angen cymryd camau pellach.



Os yw'n briodol, mae yna nifer o opsiynau y gellir eu hystyried, gan gynnwys cynghori ar sut i ddefnyddio'r plaladdwyr yn ddiogel, cymryd mesurau gorfodaeth neu os oes angen newid yr amodau ar gyfer defnyddio'r plaladdwyr.

# Diogelwch

Peidiwch â thrafod anifeiliaid sydd wedi'u gwenwyno, abwyd, plaladdwyr na'u cynwysyddion. Lle bo hynny'n ddiogel, gorchuddiwch anifeiliaid marw, abwyd neu blaladdwyr.

Peidiwch byth â dadflocio twll mochyn daear neu gadno sydd wedi'i drin â nwy. Gall fod yn beryglus iawn a rhaid cael help arbenigwr.

Os ydych chi'n credu bod eich anifail anwes neu anifail arall wedi'i wenwyno, cysylltwch â milfeddyg ar unwaith.

Darllenwch a dilynwch y cyfarwyddiadau ar label plaladdwyr wrth eu storio a'u defnyddio. Bob blwyddyn, mae anifeiliaid yn cael eu gwenwyno mewn trefi, yn y wlad ac mewn gerddi oherwydd esgeulustod pobl. Cofiwch, gall pob plaladdwr fod yn beryglus os na chânt eu defnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau ar y label.

Rhaid cael gwared ar gynnyrch sydd wedi dyddio yn ddiogel. Cadwch blaladdwyr yn eu cynwysyddion gwreiddiol bob amser. Gellir cael gwybodaeth ar storio a gwaredu plaladdwyr ar www.pesticides.gov.uk.



**Rhadffôn 0800 321 600**

Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt

**Llywodraeth Cymru**
Rheoli Bywyd Gwyllt
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR
0800 321 600
Ebost: bywyd_gwyllt@llyw.cymru

**Cwmni Cyfyngedig Gwyddoniaeth FERA**
Wildlife Incident Unit
York Biotech Campus
Sand Hutton, York YO41 1LZ
0300 100 0321
Ebost: wiis@fera.co.uk
www.fera.co.uk/chemical-regulation/post-market-stewardship/wildlife-incident-unit

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)/ Yr Adran Rheoleiddio Cemegion (CRD)**
Mallard House
Kings Pool
3 Peasholme Green
York YO1 7PX
Ebost: crdenforcement@hse.gov.uk
www.pesticides.gov.uk

**Yr Uned Wenyn Genedlaethol, Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanigion**
York Biotech Campus
Sand Hutton
York YO41 1LZ
0300 303 0094
Ebost: nbu@apha.gov.uk
www.nationalbeeunit.com

Corff aml-asiantaeth yw'r Bartneriaeth Weithredu i Atal Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt gyda chynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n gweithio i atal troseddau yn erbyn anifeiliaid gwyllt yn aelodau ohoni. Mae Llywodraeth Cymru yn bartner sy'n cynrychioli llywodraeth.

**Rhadffôn 0800 321 600**

Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt

PARTNERSHIP FOR ACTION AGAINST wildlife crime

TROSEDDAU BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD CYMRU
WALES WILDLIFE & RURAL CRIME

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47248, ISBN argraffu 978-1-80535-660-8, ISBN digidol 978-1-80535-661-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh